

## 2016 Rhif 7 (Cy. 5)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4  
(Cyffordd 46, Llangyfelach,  
Abertawe i Gyffordd 49, Pont  
Abraham, Sir Gaerfyrddin)  
(Gwaharddiadau Dros Dro, Terfyn  
Cyflymder 50 MYA Dros Dro a  
Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed  
Dros Dro) 2016

*Gwnaed*

*6 Ionawr 2016*

*Yn dod i rym*

*11 Ionawr 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (“y draffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o’r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### **Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Ionawr 2016. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 46, Llangyfelach, Abertawe i Gyffordd 49, Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau Dros Dro, Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed Dros Dro) 2016.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr, ac  
(c) sy'n cael ei yrru am y tro gan berson yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at y diben o hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr “lluoedd arbennig” (*“special forces”*) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “cyfnod y gwaith” (*“works period”*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 11 Ionawr 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y darnau o'r draffordd” (*“the lengths of the motorway”*) yw'r darnau hynny o'r draffordd yn Ninas a Sir Abertawe ac yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir ym mharagraffau 1 a 2 o Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, bydd y llain galed sy'n gyfagos i gerbyttfyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y darnau o'r draffordd a bennir yn

Atodlen 3 ar gael i'w defnyddio fel lôn draffig, ac eithrio cerbydau sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach.

### **Atal dros dro**

**7.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974(3), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2, drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**8.** Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(4) a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r llain galed sy'n gyffiniol â'r darnau o gerbyttfordd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd a bennir yn erthygl 6 a chyfarwyddir traffig i ddefnyddio'r llain galed benodedig.

### **Cymhwyso**

**9.** (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig            6 Ionawr 2016.

*Richard Morgan*

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) O.S. 1974/502.
- (4) O.S. 1982/1163.

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **HYD A LLED Y GWAHARDDIAD AR BOB CERBYD**

1. Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46, Llangyfelach hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 48, yr Hendy.
2. Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 48, yr Hendy hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46, Llangyfelach.
3. Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 48, yr Hendy hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol y gylchfan wrth Gyffordd 49, Pont Abraham.
4. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 46, Llangyfelach.
5. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 47, Penlle'r-gaer.
6. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 48, yr Hendy.

### **ATODLEN 2**

#### **HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO**

1. Y darn o'r prif gerbyttfyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 750 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt tanbont Pant Lasau Road hyd at bwynt 500 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed yr Hendy.
2. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 46, Llangyfelach, Gyffordd 47, Penlle'r-gaer a Chyffordd 48, yr Hendy.

### ATODLEN 3

#### **HYD A LLED Y TRAFFIG AR Y LLAIN GALED**

1. Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46, Llangyfelach hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 48, yr Hendy.

2. Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 48, yr Hendy hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46, Llangyfelach.